O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2234 (Cy. 238)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Slipffyrdd yng Nghyffordd 48, Hendy, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *8 Medi 2011*

Yn dod i rym *19 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi ei bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd gael ei wahardd oherwydd y gwaith y bwriedir ei wneud ar y darnau hynny.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Medi 2011 ac enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Slipffyrdd yng Nghyffordd 48, Hendy, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn :

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 19 Medi 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r draffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau hynny o'r draffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.